

**DŴR CYMRU WELSH WATER**

**COD MASNACHU A CHAFFAEL**

**FERSIWN 2.2**

**Chwefror 2016**

---

## Cynnwys

<b>1</b>	<b>Cyflwyniad – nodi cyd-destun masnachu</b>	<b>3</b>
<b>2</b>	<b>Tarddiad, Diben a Dull Gweithredu'r Cod</b>	<b>8</b>
<b>3</b>	<b>Egwyddorion Allweddol y Cod</b>	<b>10</b>
<b>4</b>	<b>Geirfa</b>	<b>15</b>

---

## 1. Cyflwyniad – nodi cyd-destun masnachu

### 1.1 Dŵr Cymru Welsh Water

Dŵr Cymru Welsh Water (Dŵr Cymru o hyn ymlaen) yw'r cwmni dŵr a charthffosiaeth penodedig ar gyfer ardal sy'n cynnwys llawer o Gymru, Swydd Henffordd a Glannau Dyfrdwy. Mae'n gyfrifol am y rhwydwaith cyflenwi dŵr a'r gwasanaethau carthffosiaeth cyhoeddus yn yr ardal hon. Mae'n cyflenwi tuag 800 megalitr ('MI') y dydd i dros 1.3 miliwn o gwsmeriaid mewn cartrefi a busnesau (sy'n gwneud cyfanswm o dros dair miliwn o bobl). Mae hyn yn golygu mai ef yw'r chweched o ran maint o'r deg cwmni dŵr a charthffosiaeth penodedig.

Mae ein hardal weithredu'n rhannu ffin dir â Severn Trent Water a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy, a ffin ddŵr â Bristol Water (aber afon Hafren) ac United Utilities Water (aber afon Dyfrdwy). Mae dau gwmni arall yn gweithredu fel 'penodeion newydd' yn ein hardal ni – Albion Water, sy'n gwasanaethu un cwsmer diwydiannol ar Lannau Dyfrdwy yn y gogledd, ac SSE Water, sy'n gwasanaethu datblygiad tai yn Llanilid yn y de.

Mae gennym dros 20 o drefniadau swmpfasnachu dŵr gyda rhai o'r cwmnïau hyn. Yr un mwyaf o'r rhain o ran maint yw trefniant gyda Severn Trent Water i swmpgyflenwi dŵr o Gwm Elan. Rydym yn allforio dros 100,000 MI y flwyddyn i Severn Trent, i'w gyflenwi i'w gwsmeriaid yn Birmingham.


Prif reoleiddiwr amgylcheddol Dŵr Cymru yw Cyfoeth Naturiol Cymru ('CNC'). Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n rheoleiddio ein gweithgareddau yn Lloegr. Yn ogystal, mae Dŵr Cymru'n gweithredu o fewn y fframwaith bras a bennir gan Lywodraeth Cymru, yn hytrach na Llywodraeth y Deyrnas Unedig, o ran strategaeth a pholisi amgylcheddol, gan fod dŵr yn faes polisi datganoledig a'i fod yn ddarostyngedig i fwy a mwy o ddeddfwriaeth Gymreig.

## 1.2 Adnoddau dŵr Dŵr Cymru

Mae Cymru'n tueddu i gael mwy o law na gweddill y Deyrnas Unedig. Ar gyfartaledd, rydym ni'n cael tua 1400mm o law bob blwyddyn o'i gymharu â De-ddwyrain Lloegr sy'n cael tua 700mm. Caiff y rhan fwyaf o'r glaw sy'n syrthio ei gadw yn yr amgylchedd naturiol, yn hytrach na'i gasglu a'i ddefnyddio ar gyfer y cyflenwad dŵr cyhoeddus. Cronfeydd dŵr ac afonydd yw ein prif adnoddau dŵr – ychydig iawn o storfeydd dŵr daear sydd gennym.

Yn ein hardal ni, mae gennym 24 o Barthau Adnoddau Dŵr ('WRZs'). Mae ein Cynllun Adnoddau Dŵr 2014 yn disgrifio sut y byddwn yn cadw dŵr dros ben yn y parthau hyn o'i gymharu â'r galw a ragwelir dros y cyfnod cynllunio hyd at 2040. Amcangyfrifwn y byddai diffyg adnoddau dŵr mewn 5 parth adnoddau dŵr pe na bai asedau newydd yn cael eu datblygu (Gweler Ffigur 1 isod). Byddai gan yr 19 parth arall adnoddau dŵr dros ben.

**Ffigur 1 – rhagolwg o'r dŵr fydd ar gael ym Mharthau Adnoddau Dŵr Dŵr Cymru hyd at 2040**



Dyma drosolwg o'n rhagolwg cyfredol o'r dŵr fydd ar gael. Mae'n awgrymu bod peth lle i fasnachu gyda chwmnïau dŵr eraill a chwsmeriaid diwydiannol. Byddwn yn adolygu ein hamcangyfrifon o'r dŵr fydd ar gael o bryd i'w gilydd ac yn eu diweddarau os bydd angen fel rhan o broses adolygu flynyddol ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (CRhAD).

### 1.3 Dŵr Cymru a'r amgylchedd naturiol

Mae'r amgylchedd naturiol ymhlith ein hasedau mwyaf gwerthfawr, yn rhan allweddol o hunaniaeth a threftadaeth Cymru. Mae hyn yn sylfaenol i'n hawydd i hybu twf economaidd gwyrdd – hynny yw, twf sy'n lles i'r economi ond sydd hefyd yn parchu ac yn gwarchod yr amgylchedd naturiol sy'n sylfaen iddi.

Un peth a allai fod yn fygythiad sylweddol i'n hamgylchedd naturiol yw newid yn yr hinsawdd, a allai achosi patrymau tywydd mwy eithafol. Gall cyfnodau o sychder a llifogydd ddod yn amlach ac yn fwy difrifol. Gall fod mwy o fygythiad i'n cyflenwadau dŵr. Er mwyn lleihau'r risgiau posibl a'u heffaith bosibl ar ein cwsmeriaid, gallwn adeiladu system gyflenwi fwy gwydn. Gall masnachu dŵr ein helpu i wneud hyn, achos mae'n golygu y bydd gennym fwy o adnoddau posibl i fanteisio arnynt.

### 1.4 Rhwymedigaethau statudol

Mae Dŵr Cymru'n darparu ei wasanaethau i gwsmeriaid yn erbyn cefndir o ddeddfwriaeth a rhwymedigaethau amgylcheddol, sy'n pennu safonau caeth y mae'n rhaid i ni eu cyrraedd. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn llywio sut, pryd a lle y gallwn dynnu dŵr. Yn ogystal â'r rhwymedigaeth gyffredinol sydd arnom i fod yn gwmni dŵr effeithlon, mae'r ddeddfwriaeth allweddol benodol a all effeithio ar yr adnoddau dŵr sydd ar gael i ni yn cynnwys y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD) Ewropeaidd, y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Rheoliadau Llyswennod.

Mae'n ofynnol i Lywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig weithredu'r Cyfarwyddebau hyn. Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd (yn Lloegr) fu'r cyrff arweiniol a oedd yn goruchwyllo'r newidiadau angenrheidiol.

Er enghraifft, o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn gorfod paratoi Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd ar gyfer pob un o'r 11 Ardal Basnau Afonydd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cynlluniau hyn yn cyflwyno 'rhaglen o fesurau' y mae eu hangen i sicrhau bod dyfroedd mewndirol (ac arfordirol) yn cyrraedd 'statws neu botensial ecolegol da' o dan y CFfD ac nad ydynt yn dirywio o'u statws presennol. Mae rheoli gwaith tynnu dŵr yn un ffordd y mae CNC yn gweithio i gyflawni amcanion y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Mae gwaith Dŵr Cymru yn dod o dan dair Ardal Basnau Afonydd – Gorllewin Cymru, Dyfrdwy a Hafren.

Mewn gwirionedd, bydd gweithredu'r Cyfarwyddebau hyn yn llawn yn golygu y gall fod angen cadw rhagor o ddŵr yn yr amgylchedd nag yn y gorffennol. I ni (ac eraill sy'n tynnu dŵr, nid cwmnïau dŵr yn unig), gall hyn olygu na fydd gennym hawl cyfreithiol i dynnu cymaint o ddŵr ag a wnawn ar hyn o bryd. O ganlyniad i hynny, bydd gennym lai o ddŵr ar gael i'n cwsmeriaid (ein 'Cynnyrch Defnyddiadwy') a llai o allu i fasnachu.

### 1.5 Sensitifrwydd amgylcheddol

Fel rhan o ofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi adolygu pob un o'n trwyddedau tynnu dŵr a allai effeithio ar safleoedd sydd â dynodiadau Ewropeaidd, sef Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yn bennaf. Mae'r broses hon (a elwir yn Adolygiad o Ganiatadau) yn awgrymu yr effeithir ar dri chorff o ddŵr yn neilltuoel –

Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol Gwy, Wysg a Chleddau. Nid yw canlyniadau proses yr Adolygiad o Ganiatadau wedi galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ddod i'r casgliad nad yw ein gwaith ar afonydd Gwy ac Wysg a Chleddau yn cael effaith niweidiol neu mewn perygl o gael effaith niweidiol. Ers 2103, mae Grŵp Tynnu Dŵr Gwy ac Wysg, sy'n cynnwys Dŵr Cymru, Severn Trent Water, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd a Sefydliad Gwy ac Wysg, wedi bod yn gweithio i baratoi set o addasiadau i'n trwyddedau tynnu dŵr a fydd yn sicrhau y cydymffurfir â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Datblygwyd cynnig terfynol y grŵp hwn trwy astudiaethau cynhwysfawr a seilir ar dystiolaeth ac fe'i cyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2014. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio tuag at addasu'r trwyddedau tynnu dŵr a chadarnhau dyddiad derbyn ar gyfer y newidiadau, erbyn diwedd 2015. Ar afonydd Cleddau, rydym hefyd yn gweithio tuag at gytuno ar addasiadau i'n trwyddedau tynnu dŵr a'u cwblhau erbyn diwedd 2015.

Yn ogystal â bodloni ei rwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth Ewrop, mae Dŵr Cymru'n cydweithio â nifer o bartneriaid a rhanddeiliaid i leihau effaith ei waith ar yr amgylchedd naturiol a'r rhai sy'n ei fwynhau. Rydym yn edrych ar reoli ein hadnoddau dŵr mewn ffordd gyfannol, gan edrych y tu hwnt i darddiad pob afon i'r dalgylch cyfan, a chan gynnwys materion fel yr arferion ffermio gorau a'r dulliau gorau o reoli tir, ac addysgu ein cwsmeriaid i ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon gan atal problemau cyn iddynt godi yn ogystal â mynd i'r afael â nhw ar ôl iddynt godi.

Rydym hefyd yn edrych ar yr opsiynau ar gyfer cyrraedd safonau amgylcheddol newydd, mwy caeth, ac rydym yn cydweithio â nifer o bartneriaid ar y manylion. Rydym yn derbyn bod angen bodloni gofynion y Cyfarwyddebau Ewropeaidd ond rydym yn dymuno gwneud hynny yn y ffordd fwyaf amserol a chost-effeithiol, gan sicrhau bod dŵr yn dal ar gael ar gyfer datblygiadau cynaliadwy.

## **1.6 Llywodraeth Cymru**

Llywodraeth Cymru sy'n pennu cyfeiriad strategol polisi dŵr yng Nghymru. Un rhan ganolog o'i pholisi yw'r angen i gydnabod gwerth yr adnoddau dŵr sydd ar gael yng Nghymru a sicrhau manteision gwirioneddol wedi'u seilio ar werth yr adnoddau hynny. Mae'n cefnogi masnachu fel un o nifer o opsiynau sydd ar gael i gwmnïau er mwyn sicrhau'r gwerth gorau i gwsmeriaid yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i gwmnïau dŵr sy'n gweithredu yng Nghymru yn unig neu'n bennaf i gytuno i rannu adnoddau ac i fasnachu dŵr ddim ond os na fyddai hynny'n niweidiol i'r cwmni hwnnw a'i gwsmeriaid, yn enwedig os gallai'r masnachu gael ei ddefnyddio i gwrdd â'r galw yn Lloegr.

## **1.7 Llywodraeth y Deyrnas Unedig**

Mae gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig weledigaeth ar gyfer y diwydiant dŵr a gyflwynwyd yn ei Phapur Gwyn a 'Water For Life: Market Reform Proposals' ym mis Rhagfyr 2011. Mae'n dymuno gweld sector dŵr mwy dibynadwy, cynaliadwy a gwydn, a all fynd i'r afael â'r heriau sy'n datblygu o ran newid yn yr hinsawdd a thwf yn y boblogaeth, yn ogystal ag ymateb i broblemau cyfredol tynnu gormod o ddŵr. Mae hefyd yn dymuno gweld dŵr yn cael ei werthfawrogi fel adnodd gwerthfawr.

Mae'n credu y gellir gwireddu'r weledigaeth hon, yn rhannol, trwy fwy o ryng-gysylltu rhwng rhwydweithiau'r cwmnïau dŵr. Yn benodol, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig o blaid rhagor o fasnachu dŵr ac mae'n disgwyl i Ofwat annog cwmnïau i wneud hyn trwy gymelliannau rheoleiddiol i weithredu rhai o'r cynlluniau yn y Papur Gwyn. Cafodd Deddf Dŵr 2014 Gydsyniad Brenhinol ar 14 Mai 2014.

## **1.8 Manylion Cysylltu**

Dylai unrhyw ymholiadau am y Cod Masnachu a Chaffael hwn, Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (CRhAD) Dŵr Cymru neu fasnachu dŵr yn gyffredinol gael eu cyfeirio at:

**Dr. Ian Brown, Pennaeth Adnoddau Dŵr  
Dŵr Cymru Welsh Water  
Heol Pentwyn  
Nelson  
Treharris  
CF46 6LY**

**Ffôn: 01443 452129 (gofynnwch am Ian Brown)**

**Ffôn: 07920 720887**

**Ebost: [Ian.Brown@dwrcymru.com](mailto:Ian.Brown@dwrcymru.com)**

---

## 2. Tarddiad, Diben a Dull Gweithredu'r Cod

### 2.1 Safbwynt Dŵr Cymru ar fasnachu

Mae Dŵr Cymru'n cefnogi twf economaidd yn ei ardal gyflenwi. Credwn y gall masnachu dŵr helpu i annog twf ar yr amod ei fod yn cael ei wneud mewn ffordd gynaliadwy. Rydym yn cefnogi'r safbwynt a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru sef ei bod yn rhaid i fasnachu dŵr fod o fudd i Gymru a phobl Cymru, a phheidio â pheryglu ein busnes ni na'n cwsmeriaid.

Mae'r sefyllfa a amcangyfrifwyd ar gyfer ein hadnoddau dŵr dros y tymor canolig, fel y nodwyd yn ein [Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2014](#), yn awgrymu ein bod yn fwy tebygol o gynnig dŵr i'w allforio nag o chwilio am ddŵr i'w fewnforio yn ystod y cyfnod hwn. Mae ein Prosbectws Masnachu Dŵr, gweler Atodiad 1, yn nodi faint o ddŵr yr amcangyfrifir y bydd gennym dros ben yn ein Parthau Adnoddau Dŵr.

Credwn ei bod yn ddoeth datblygu a gweithredu Cod sy'n cyd-fynd â gofynion ac egwyddorion Ofwat, yn barod i ymateb i gynigion gan gwmnïau eraill i fasnachu gyda Dŵr Cymru.

### 2.2 Pwrpas y Cod

Yn ein Prosbectws Masnachu Dŵr, rydym yn dweud yn glir ein bod yn fodlon masnachu gyda cwmnïau dŵr eraill a gyda thrydydd partion. Fodd bynnag, credwn ei bod yn debygol, ar y dechrau o leiaf, mai rhwng cwmnïau dŵr y bydd y rhan fwyaf o'r masnachu newydd, wrth iddynt ymateb i'r cymelliannau masnachu dŵr a gyflwynwyd gan Ofwat yn adolygiad prisiau 2014. O Chwefror 2016 ymlaen, mae Ofwat wedi eglurhau y bydd mewnfurion dŵr gan ymgwymerwyr dŵr trydydd parti yn gymwys am daliadau cymell hefyd. Er mwyn eglurder, pan fydd Dŵr Cymru'n allforio i rai sydd â thrwyddedau cyflenwi dŵr neu rai sydd newydd eu penodi, defnyddir ein Cod Mynediad i'r Rhwydwaith i ymdrin â'r masnachu hwn. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r Cod i'w gweld ar [ein gwefan](#).

Mae Ofwat yn awyddus i sicrhau bod cwsmeriaid cwmnïau dŵr a'r amgylchedd yn cael eu gwarchod wrth fasnachu dŵr. Yn ogystal, mae Ofwat yn awyddus i sicrhau bod ei gynlluniau rheoleiddio yn gweithio'n iawn ac na fyddant yn effeithio ar gwsmeriaid mewn ffyrdd anfwriadol. Felly, os bydd cwmni dŵr yn dymuno hawlio cymhelliant allforio a (neu) mewnfurio, mae'n rhaid ei fod yn gweithredu yn unol â chod masnachu a chaffael cymeradwy ac yn gallu dangos ei fod yn cydymffurfio â'r cod hwnnw. Bydd Ofwat yn asesu hyn yn yr adolygiad prisiau nesaf wrth benderfynu a yw trefniant masnachu'n gymwys i gael cymelldaliad.

### 2.3 Gweithredu'r Cod

Mae Cod Dŵr Cymru'n cydymffurfio â'r egwyddorion lefel uchel cyffredinol a ganlyn, a fydd yn rheoli'r ffordd y bydd yn mynd ati i drafod cytundebau masnachu. Dylid cymryd yr egwyddorion cyffredinol hyn ar y cyd â'r egwyddorion penodol a nodir yn adran 4 isod.

- |             |  |
|-------------|--|
| Ansawdd dŵr | Gellir masnachu dŵr wedi'i drin neu heb ei drin. Mae'n rhaid i fasnachwyr gadw at y Protocolau Ansawdd Dŵr a bennir gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI). |
| Aseinio     | Ni chaniateir, o dan unrhyw amgylchiadau, i'r masnachwr aseinio'r cytundeb masnachu i rywun arall heb gytundeb Dŵr Cymru                               |



---

Cydweithredu	Bydd Dŵr Cymru a'r masnachwr yn cydweithredu â'i gilydd er budd cyffredinol darparu cyflenwad parhaus o ddŵr a chyfanrwydd y rhwydwaith cyflenwi dŵr
Cydymffurfio	Bydd Dŵr Cymru a'r masnachwr yn cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â phob cyfraith a rheoliad sy'n berthnasol o bryd i'w gilydd, yn cynnwys Deddf Cystadleuaeth 1998.
Cyfnod gweithredu	Mae'n rhaid i drefniant masnachu cymwys fod yn gweithredu'n ymarferol ac yn cynhyrchu refeniw yn ystod y cyfnod rheoli prisiau rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2020.
Cytundebau masnachu	Bydd angen llofnodi cytundeb masnachu cyn y gall trefniant masnachu cymwys gychwyn. Bydd cytundeb felly yn nodi'n fanwl y telerau a'r amodau y mae'r partiön masnachu wedi cytuno arnynt.
Dyddiad dechrau Effeithiau'r masnachu	Mae'n rhaid i drefniant masnachu cymwys ddechrau ym mis Gorffennaf 2013 neu wedyn Ni ddylai trefniant masnachu cymwys fod yn niweidiol i unrhyw rai o gwsmeriaid Dŵr Cymru nac i'r gwasanaeth a ddarperir iddynt ac ni ddylai amharu ar ansawdd y dŵr, yr amgylchedd na'r gymuned
Hyd	Mae'n rhaid i drefniant masnachu cymwys weithredu rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2020 ond gall barhau i weithredu ar ôl Mawrth 2020.
Partneriaid masnachu Rheoli allforion	Mae'n rhaid i'r trefniant masnachu cymwys fod rhwng cwmnïau sydd heb unrhyw gysylltiad rhyngddynt Mae Dŵr Cymru'n gweithredu ei system dros nifer o barthau adnoddau dŵr penodol, ar wahân. Byddwn yn gweithio gyda'r cwmni mewnfory i sicrhau bod y dŵr a gaiff ei allforio gan Dŵr Cymru mor effeithlon ag y bo modd a bod costau'r seilwaith a fydd yn galluogi'r allforio mor fychan ag y bo modd. Lle bo modd, defnyddir y seilwaith presennol
Rheoli argyfyngau	Bydd Dŵr Cymru'n cadw'r prif gyfrifoldeb am reoli gweithdrefnau argyfwng sy'n ymwneud â'i system cyflenwi dŵr i gyd. Disgwylir i'r masnachwr gydweithredu â Dŵr Cymru os bydd argyfwng neu broblem ddiogelwch yn effeithio ar y system cyflenwi dŵr a'r fasnach rhwng y ddau barti
Rheoli mewnforyon	Mae Dŵr Cymru'n gweithredu ei system dros nifer o barthau adnoddau dŵr penodol, ar wahân. Byddwn yn gweithio gyda'r cwmni allforio i sicrhau bod y dŵr yn cael ei fewnforio i Dŵr Cymru mor effeithlon ag y bo modd a bod costau'r seilwaith a fydd yn galluogi'r mewnforyon mor fychan ag y bo modd. Lle bo modd, defnyddir y seilwaith presennol
Telerau masnachu	Os na chytunir yn wahanol, fel rheol, bydd yr un amodau o ran toriadau, gwasgedd a phethau eraill yn berthnasol i'r cyflenwad i'r cwmni sy'n mewnforyo ag sydd i'r cyflenwad i gwsmeriaid Dŵr Cymru yn y Parth Adnoddau Dŵr y daw'r dŵr ohono.
Trefniant masnachu cymwys Triniaeth gyfartal a theg	Bydd trefniant masnachu cymwys yn gytundeb newydd gyda chwmni dŵr arall i Dŵr Cymru fewnforio o rwydwaith cyflenwi dŵr y cwmni hwnnw neu allforio iddo. Bydd pawb sy'n dymuno masnachu gyda Dŵr Cymru'n cael eu trin yn deg ac yn gyfartal rhyngddynt a'i gilydd, yn cynnwys wrth ddarparu gwybodaeth.

---



### **3. Egwyddorion Allweddol y Cod**

#### **3.1 Crynodeb**

Lle bwriedir masnachu dŵr rhwng cwmnïau dŵr eraill neu gwsmeriaid diwydiannol a Dŵr Cymru, rydym yn ymrwmo i fasnachu mewn ffordd dryloyw, gynaliadwy a chyfrifol, oddi mewn i'r fframwaith polisi a bennir gan Lywodraeth Cymru ac er budd ein cwsmeriaid a'r amgylchedd naturiol.

Yn y Cod hwn, rydym yn nodi sut y byddem yn mynd ati i fasnachu gyda phartïon eraill. Mae'n rhoi sylfaen ar gyfer trafodaethau masnachol manylach gyda phartïon masnachu posibl. Mae'r egwyddorion a ganlyn, ar y cyd â'r rhai yn adran 2 yn dangos ein hymrwymiad i fasnachu teg, cydradd a chyfrifol.

#### **3.2 Mewnforio gan Dŵr Cymru**

Fel y nodwyd uchod, ac yn ein Prosbectws Masnachu Dŵr, mae Dŵr Cymru'n fwy tebygol o gytuno i allforio i gwmnïau eraill nag i gymryd mewn mewnforion. Amcangyfrifir y bydd gan 19 allan o'n 24 Parth Adnoddau Dŵr swm bychan neu sylweddol o ddŵr dros ben yn y cyfnod hyd at 2040. Serch hynny, os bydd yr amgylchiadau'n newid dros amser ac y byddwn yn credu mai cytundeb mewnforio newydd yw'r ffordd ymlaen, bydd rhaid cadw at yr egwyddorion isod:

##### **3.2.1 Caffael Anwahaniaethol**

Wrth baratoi ei CRhAD mae'n rhaid i Dŵr Cymru, fel cwmnïau dŵr eraill, ystyried opsiynau i rannu dŵr gyda chwmnïau dŵr eraill neu drydydd partïon. Mae ein CRhAD 2014 yn dangos faint yr ydym wedi'i wneud eisoes i godi ymwybyddiaeth o fasnachu dŵr a diddordeb yn y maes gyda phenodeion eraill a thrydydd partïon. Rydym wedi cyhoeddi datganiad cyffredinol o angen, sy'n dangos lle y gall fod angen adnoddau dŵr arnom yn y dyfodol, ledled ein hardal. Rydym hefyd wedi cynnal trafodaethau penodol gyda phedwar cwmni dŵr cyfagos ynglŷn â'r posibilrwydd o wneud trefniadau i rannu dŵr yn y dyfodol. Rydym yn dal yn fodlon trafod y posibilrwydd o fasnachu gydag unrhyw drydydd parti. Fel y dengys ein CRhAD 2014, ni fyddwn yn gwahaniaethu yn erbyn na rhwng unrhyw un a allai ddarparu dŵr i ni.

##### **3.2.2 Prynu darbodus**

Mae Dŵr Cymru'n gweithredu o dan set o rwymedigaethau a disgwyliadau gan Lywodraeth Cymru ac Ofwat y byddwn yn rhedeg ein busnes yn effeithlon ac er budd ein cwsmeriaid. Mae ein strwythur unigryw, nid-er-elw, yn caniatáu i ni fuddsoddi mwy ar ran ein cwsmeriaid a chadw biliau'n is. Yn ogystal, mae'r fframwaith gweithredu hwn yn cynnwys rhwymedigaeth i ystyried masnachu dŵr fel rhan o broses ein CRhAD drafft. Yn gyffredinol, mae'n golygu y gallwn sicrhau ein rheoleiddwyr a darpar fasnachwyr y byddem yn prynu o'r ffynonellau gorau o safbwynt economaidd, yn dibynnu ar nifer o ffactorau perthnasol yn cynnwys ansawdd y dŵr sydd ar gael, faint ohono sydd ar gael, a'r seilwaith sy'n angenrheidiol ar gyfer ei gyflenwi.

##### **3.2.3 Defnyddio prosesau cystadleuol**

Mae ein CRhAD yn dangos ein bod yn agored ac yn dryloyw wrth ystyried derbyn cyflenwadau o ddŵr gan drydydd partïon. Fel rhan o broses cyn-ymgyngori y cynllun, cyhoeddwyd amlinelliad ar ein gwefan o'r angen am adnoddau dŵr a'r adnoddau dŵr sydd ar gael ledled ein hardal gyflenwi. Mae Adran 11.17.1 o'n CRhAD 2014 yn rhoi rhagor o fanylion am y broses hon a'r ymatebion a gafwyd.

Rydym yn hollol gefnogol i ddefnyddio prosesau cystadleuol a gwyddom am ein rhwymedigaethau o dan gyfraith gyffredinol y Deyrnas Unedig ac Ewrop. Pe byddai mwy

nag un cyflenwr yn ymgeisio i gyflenwi dŵr i ni, byddai'n ofynnol i ni ddefnyddio proses strwythuredig a chystadleuol i benderfynu ar y cyflenwr llwyddiannus.

I ddechrau, byddai asesiad o dderbynioldeb yn cael ei gynnal ar unrhyw gynigion gan ystyried ansawdd, swm, a chynaliadwyedd amgylcheddol pob un. Byddai meini prawf yr asesiad yn cynnwys:

- Cydymffurfio â'n cod mynediad i'r rhwydwaith
- Derbynioldeb yr ansawdd, neu'r gost o'i drin i safon dderbyniol
- Amrywioldeb yn yr ansawdd a pheryglon i'r ansawdd
- Dibynadwyedd ac amrywioldeb ansawdd, a'r gwasgedd yn ystod cyfnodau o alw uchel ac yn ystod sychder difrifol
- Cyfyngiadau ar y llif o ran cysylltu â seilwaith sy'n bodoli eisoes, y gallu i wasanaethu'r parth neu'n gofyn i ddatblygu seilwaith newydd
- Cynaliadwyedd amgylcheddol y cyflenwad (nad yw ffynhonnell y dŵr amrwd yn dirywio)
- Gwytnwch y sawl sy'n masnachu fel busnes.

Yna, byddai'r ceisiadau derbyniol yn mynd trwy asesiadau eraill i ganfod yr opsiynau gorau ar gyfer pob Parth Adnoddau Dŵr. Byddai hyn yn cynnwys asesiad o gostau unrhyw asedau ychwanegol angenrheidiol ymhellach i lawr y gadwyn. Byddem hefyd yn asesu unrhyw fanteision posibl fel gwytnwch neu hyblygrwydd ychwanegol y byddai'r cyflenwad dŵr yn ei gynnig. Ar ôl eu hasesu'n llwyr, byddai'r opsiynau'n cael eu cynnwys gydag opsiynau eraill am adnoddau dŵr yn yr asesiad Economeg Cydbwysu Cyflenwad a Galw (EBSD) ar gyfer pob Parth Adnoddau Dŵr. Mae'r asesiad yn cymryd costau gweithredu, costau cyfalaf a chostau amgylcheddol a chymdeithasol pob opsiwn a gynigir i ystyriaeth er mwyn penderfynu ar y rhaglen opsiynau fyddai'n cynnig y gwerth gorau i'r parth.

### 3.3 Allforio gan Dŵr Cymru

Yn achos allforion gan Dŵr Cymru, byddai angen i bob trefniant masnachu gydymffurfio â'r amodau a ganlyn:

- Na fyddai unrhyw barth adnoddau dŵr yn mynd i ddiffyg o ganlyniad i'r allforio
- Na fyddai effaith ar ein gallu i gyflenwi dŵr yn ystod cyfnodau o sychder
- Na fyddai effaith ar lefelau gwasanaeth y cwmni
- Cynaliadwyedd amgylcheddol y cyflenwad (nad yw ffynhonnell y dŵr amrwd yn dirywio)

### 3.4 Hyd contractau

Mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i ddod i gytundeb ar drefniadau masnachu teg a phriodol sy'n bodloni anghenion y ddau barti. Wrth bennu hyd contractau, bydd Dŵr Cymru'n dewis hyd rhesymol, gan ystyried natur y cyflenwad a ffactorau eraill sy'n benodol i'r gwahanol achosion.

Er mwyn cyflenwi i barti arall, dylai hyd y contract dalu sylw i unrhyw risgiau posibl i gwsmeriaid presennol. Mae hyn yn cynnwys cyfnod talu 'nôl am unrhyw seilwaith sy'n angenrheidiol i gyflenwi'r dŵr. Ni ddylai'r swm a gynigir achosi diffyg yn y parth yn ystod cyfnod y contract ac, os yw'r cyflenwad yn gysylltiedig â ffynhonnell benodol, dylai hyd y contract fod o fewn cyfnod caniatâd y drwydded tynnu dŵr.

Yn achos cyflenwadau a gynigir gan barti arall, os oes modd, dylai hyd y contract fod yn 25 mlynedd yn unol â'r CRhAD. Fodd bynnag, dylai gymryd costau seilwaith i ystyriaeth er mwyn sicrhau'r gwerth gorau dros y cyfnod. Yn ogystal, dylai hyd y contract ganiatáu'r

amser angenrheidiol i sicrhau cyflenwad arall, seiliedig ar ffynhonnell ddŵr dderbyniol, yn lle swm y dŵr a dderbynnir.

### **3.5 Tryloywder ac archwilio**

Mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i broses fasnachu agored a thryloyw, yn unol â'i broses drwyadl ar gyfer datblygu ei sefyllfa ehangach ym maes adnoddau dŵr o dan y CRhAD.

#### **3.5.1 Yr wybodaeth sydd ar gael**

Un peth fydd yn ganolog i unrhyw drefniant masnachu posibl fydd gwybodaeth am ein sefyllfa o ran adnoddau dŵr. Nodir hyn yn ein CRhAD diweddaraf. Yn ogystal, byddwn yn diweddarau ein Prosbectws Masanachu Dŵr sy'n rhoi trosolwg o'r dŵr sydd ar gael gennym, ar gyfer pob un o'n Parthau Adnoddau Dŵr, gyda golwg ar annog masnachu. Gallwn sicrhau ein rheoleiddwyr a darpar fasnachwyr y byddwn yn parhau ag o leiaf gymaint â hyn o dryloywder. Mae rhagor o wybodaeth am faint o ddŵr sydd ar gael yn fwy cyffredinol yn yr amgylchedd naturiol ehangach i'w chael gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd.

Cyflwynir gwybodaeth am drefniadau masnachu y cytunwyd arnynt i Ofwat fel rhan o'r gofynion adrodd presennol sy'n cynnwys rhestr o'n holl drefniadau swmpfewnforio a swmpallforio presennol. Caiff gwybodaeth ei chynnwys yn ein CRhAD hefyd, yn amodol ar ofynion yn ymwneud â diogelwch cenedlaethol a chyfrinachedd masnachol.

#### **3.5.2 Cydymffurfio â'r Cod**

Mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i gydymffurfio'n llwyr â'i holl rwymedigaethau cyfreithiol, yn cynnwys y Cod Masnachu a Chaffael. Rydym yn disgwyl yr un ymrwymiad gan ein partneriaid masnachu.

Byddwn yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a Defra, Ofwat, DWI, CNC a/neu Asiantaeth yr Amgylchedd (fel sy'n briodol) yn cael gwybodaeth lawn am unrhyw gynigion a wneir i ni ar gyfer trefniadau masnachu cymwys, unrhyw gynigion a wnawn ni i eraill, ac unrhyw gytundebau masnachu a wneir trwy ryngwynebau adrodd presennol.

Yn achos yr holl gynigion masnachu cymwys a gaiff eu cwblhau'n llwyddiannus, byddwn yn cynnal archwiliad mewnol o'r broses ac yn darparu'r adroddiad hwnnw i Lywodraeth Cymru, Defra, Ofwat, DWI, CNC a/neu Asiantaeth yr Amgylchedd. Bydd yr adroddiad archwilio yn trafod y prosesau a ddilynwyd yn ystod y trafodaethau masnachu ac yn dangos ein bod wedi cydymffurfio â phob agwedd ar y Cod hwn. Rhoddir sicrwydd ar drefniadau masnachu cymwys hefyd fel rhan o'r Cynllun Busnes a gyflwynwn.

### **3.6 Y berthynas â'r CRhAD**

Mae Dŵr Cymru'n cynnwys gwaith ystyried cytundebau masnachu dŵr yn ei broses bresennol ar gyfer dewis opsiynau er mwyn datblygu ei CRhAD. Nid ydym wedi cael ymatebion pendant i'r datganiad o angen am adnoddau dŵr a gyhoeddwyd gennym, ac nid oes trydydd parti na chwmini dŵr cyfagos wedi cyflwyno unrhyw opsiynau penodol ynghylch cyflenwi dŵr i ni i'w cynnwys yn ein proses gwerthuso opsiynau. Felly, nid ydym wedi cynnwys unrhyw drefniadau newydd i fasnachu dŵr yn ein CRhAD 2014. Fodd bynnag, mae gennym femoranda dealltwriaeth gyda chwminiâu dŵr, sy'n golygu y gellir parhau â thrafodaethau am gynigion i'r dyfodol. Credwn fod ein dull o fynd ati i ddewis opsiynau o dan y CRhAD yn hollol gyson â'r ffordd y byddem yn mynd ati i gytuno ar drefniadau masnachu dŵr. Mae ein proses ar gyfer dewis opsiynau cyflenwad a galw wedi'u nodi yn Adran 11 o'n CRhAD 2014. Caiff y broses hon ei diweddarau fel rhan o'n CRhAD 2019.

### **3.7 Masnachu rhesymegol**

Mae Dŵr Cymru'n hollol bleidiol i ddull cytbwys o reoli a defnyddio adnoddau dŵr a dyna sut mae'n gweithredu. Rydym yn awyddus i'n cwsmeriaid gael gwasanaeth diogel a dibynadwy sy'n bodloni eu holl ddisgwyliadau, am bris fforddiadwy. Rydym am wneud hyn mewn ffordd gynaliadwy, fel y gall yr oesoedd a ddêl hefyd fwynhau'r amgylchedd naturiol sy'n rhan unigryw o gymeriad Cymru.

Bydd unrhyw gynigion a ystyriwn ar gyfer masnachu dŵr yn rhesymegol o safbwynt economaidd ac amgylcheddol. Mae hyn yn golygu mai'r unig drefniadau masnachu dŵr a ystyriwn fydd rhai sy'n cynnig gwell ateb yn gyffredinol na'r opsiynau eraill sydd ar gael i ni. Dyma sut yr aethom ati i asesu ein holl opsiynau o dan ein CRhAD 2014.

#### **3.7.1 Trefniadau masnachu economaidd-resymegol**

Cefnogir natur economaidd-resymegol unrhyw gytundeb masnachu newydd, gan dystiolaeth o asesiad cost cywir sy'n sylfaen i'r trefniant. Adroddir ar yr asesiad cost hwn yn yr adroddiad archwilio y byddwn yn ei baratoi ar ôl cytuno ar y trefniant masnachu.

Fel y nodir yn ein CRhAD 2014, mae'r asesiad o gost yr holl opsiynau, yn cynnwys trefniadau masnachu posibl, ar sail 'costiad oes gyfan' sy'n cynnwys cyfrannu costau cyfalaf (CAPEX) ymlaen llaw, cyfrannu costau gweithredu (OPEX) a chostau cynnal a chadw parhaus, yn ogystal â chostau cymdeithasol, economaidd a charbon.

#### **3.7.2 Trefniadau masnachu amgylcheddol-resymegol**

Cefnogir natur amgylcheddol-resymegol unrhyw gytundeb masnachu newydd gan y ffaith na fyddwn yn cyfaddawdu ar ein gallu i fodloni gofynion deddfwriaeth y Deyrnas Unedig ac Ewrop, fel yr angen i sicrhau statws neu botensial ecolegol da o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ('WFD') ar gyfer y cyrff dŵr y tynnwn ddŵr ohonynt.

Yn ogystal, rydym wrthi'n cynnal astudiaethau amgylcheddol eang i asesu'r ffordd orau i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, gan sicrhau ar yr un pryd bod dŵr yn dal ar gael ar gyfer datblygu cynaliadwy. Byddwn hefyd yn cynnal astudiaethau manwl yn ystod AMP6 i ymchwilio i effaith ein hasedau ar Gyrff Dŵr a Addaswyd yn Sylweddol o dan yr WFD. Bydd yr astudiaethau hyn yn cyfrannu at ddatblygiad ein CRhADau yn awr ac yn yy dyfodol ac maent yn dystiolaeth ychwanegol y byddai'n rhaid i unrhyw drefniadau masnachu dŵr y byddem yn eu hystyried fod yn amgylcheddol-resymegol.

Yn ogystal, mae ein CRhAD yn cynnwys egwyddorion 'dim dirywiad' a byddem yn disgwyl gwybodaeth am gynaliadwyedd amgylcheddol unrhyw ddŵr a gyflenwir i ni gan drydydd partion.

#### **3.7.3 Diogelu safleoedd amgylcheddol-sensitif**

Mae Dŵr Cymru'n cymryd ei ymrwymiad i gynnal yr amgylchedd naturiol o ddirif. Mae proses yr Adolygiad o Ganiatadau wedi canfod y gallai nifer o'n safleoedd tynnu dŵr wneud niwed i'r amgylchedd pe bai'r holl ddŵr a ganiateir yn cael ei dynnu yno. Rydym yn cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd i dynnu llai o ddŵr mewn rhai safleoedd er mwyn dangos nad oes perygl bellach o amharu ar y safleoedd hynny, a sicrhau y cydymffurfir yn llwyr â gofynion deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd.

Ni fyddai Dŵr Cymru'n cynnig trefniant masnachu dŵr pe na baem yn sicr y gallem osgoi gwneud rhagor o niwed i'r amgylchedd naturiol. Pe bai bwriad i ddatblygu man tynnu dŵr gyda'r bwriad o fasnachu gyda thrydydd parti, a bod angen gwneud cais am drwydded i

wneud hynny neu wneud mwy o ddefnydd o ffynhonnell, byddai angen cael asesiad amgylcheddol boddhaol, yn cynnwys maen prawf 'dim dirywiad' ar gyfer pob corff dŵr.

O dan Reoliadau Aseidiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, mae'n rhaid i'r CRhAD fynd trwy Aseiad Amgylcheddol Strategol (AAS) oherwydd 'effaith arwyddocaol' yr opsiynau a nodir yn y cynllun ar safleoedd a ddynodwyd o dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd. Yn ogystal, o dan Reoliad 61 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd)<sup>1</sup> y cyfeirir atynt fel y Rheoliadau Cynefinoedd, mae'n rhaid i unrhyw gynllun neu brosiect sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd (naill ai ar ei ben ei hunan neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill) ac nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r safle nac yn angenrheidiol er mwyn ei reoli, fynd trwy Aseiad Priodol er mwyn pennu goblygiadau'r cynllun o ran amcanion cadwraethol y safle. Felly, mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i'r CRhAD, ac mae'r Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) yn cyfeirio at asesu effeithiau posibl prosiect datblygu (h.y. ein opsiynau o ran adnoddau dŵr) ar un neu fwy o safleoedd Ewropeaidd. Felly, byddai unrhyw opsiynau adnoddau dŵr a nodir yn y CRhAD sy'n cynnwys masnachu dŵr yn gorfod mynd trwy'r aseidiadau hyn.

Pe bai trydydd parti'n cynnig cyflenwi dŵr, byddem yn disgwyl i'r cynnig gynnwys y lefel briodol o aseidiadau amgylcheddol ar gyfer tynnu dŵr, a chadarnhad gan reoleiddwyr amgylcheddol nad fyddai unrhyw gorff dŵr yn 'dirywio' o ganlyniad i'r trefniadau tynnu dŵr. Byddem hefyd yn gofyn am sicrwydd nad oedd cais i ostwng y symiau yr oedd caniatâd i'w tynnu o'r ffynhonnell.

### **3.8 Dod â threfniadau masnachu i ben**

Mae gan Dŵr Cymru nifer o drefniadau mewnfario ac allfario gyda chwmnïau eraill ar hyn o bryd. Mae Ofwat yn gwybod am y trefniadau trosglwyddo hyn eisoes trwy wybodaeth yr ydym ni wedi'i chyflwyno.

Gwyddom fod Ofwat yn mynnu bod trefniadau masnachu cymwys yn drefniadau newydd a ddechreuwyd ym mis Gorffennaf 2013 neu wedi hynny. Gallwn sicrhau Ofwat ac eraill nad yw'n fwriad gennym addasu yr un o'n trefniadau masnachu cyfredol er mwyn elwa ar gymelliannau ariannol am fasnachu. Byddem yn disgwyl i'n holl bartneriaid masnachu edrych mewn ffordd debyg ar gadw cytundebau masnachu sydd eisoes yn bodoli.

Pe baem yn cytuno ar drefniant masnachu newydd, byddai'r adroddiad archwilio y byddem yn ei baratoi fel rhan o'r broses gydymffurfio yn cynnwys tystiolaeth i ddangos bod y trefniant yn un newydd, nid yn un a oedd wedi'i derfynu yn artiffisial a'i ailgychwyn.

### **3.9 Asesu costau**

Byddai Dŵr Cymru'n edrych ar drefniant masnachu dŵr mewn ffordd sy'n hollol gyson â'r broses cynllunio adnoddau dŵr a nodir yng nghanllawiau'r CRhAD. Byddai unrhyw ddarpar drefniant masnachu'n cael ei gostio mewn ffordd drwyadl a manwl, ar sail costau 'oes gyfan'. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ni fyddem yn cytuno ar drefniant masnachu os nad oedd gwerth yr adnodd yn cael ei gydnabod yn briodol nac os oedd y trefniant yn peryglu ein cwsmeriaid neu'r amgylchedd naturiol. Mae dilyn y canllawiau hyn yn golygu ein bod bob amser yn ceisio derbyn lefel briodol o gostau unrhyw drefniant masnachu dŵr oddi wrth ein partner masnachu.

---

<sup>1</sup> Yn cynnwys Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) 2011 a 2012.

#### 4. Geirfa

<b>Asiantaeth yr Amgylchedd</b>	Rheoleiddiwr yr amgylchedd naturiol yn Lloegr.
<b>Cyfoeth Naturiol Cymru</b>	Rheoleiddiwr yr amgylchedd naturiol yng Nghymru. Fe'i ffurfiwyd ym mis Ebrill 2013 wrth uno Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.
<b>Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr</b>	Cynllun strategol hirdymor ymgymerwr dŵr i ddatblygu adnoddau dŵr yn ei ardal (gweler adran 37A WIA91).
<b>Cynnyrch Defnyddiadwy</b>	Cynnyrch ffynhonnell cyflenwad dŵr a gomisiynwyd, grŵp o ffynonellau, neu swmp-gyflenwad o dan yr amodau sychder hanesyddol gwaethaf gan ystyried y ffactorau a ganlyn – trwydded(au) tynnu dŵr, os yw'n berthnasol; yr amgylchedd; triniaeth; prif bibellau dŵr amrwd a/neu ddyfrhaenau; offer pwmpio a/neu nodweddion ffynhonnau/dyfrhaenau; prif bibell drosglwyddo a/neu allgynnyrch; ansawdd dŵr.
<b>DEFRA</b>	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
<b>DWI</b>	Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed
<b>Dŵr anyfadwy</b>	Dŵr na fwriedir iddo gael ei ddefnyddio at ddibenion domestig neu gynhyrchu bwyd.
<b>Dŵr Daear</b>	At ddibenion cytundeb masnachu dŵr, diffinnir dŵr daear fel dŵr a gaiff ei dynnu'n uniongyrchol o ddyfrhaen trwy ddefnyddio ffynnon, twll turio neu bistyll.
<b>Dŵr wedi'i drin</b>	Dŵr sydd o ansawdd addas i'w gynnwys yn y system dosbarthu dŵr wedi'i drin ac sy'n cydymffurfio'n foddhaol â safonau'r DWI pan ddaw o dap y cwsmer.
<b>Dŵr Yfadwy</b>	Dŵr at ddibenion domestig a chynhyrchu bwyd, sy'n iachusol pan gaiff ei gyflenwi. Diffinnir hyn yn adran 68 o WIA91 ac yn adran 4 o'r Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr).
<b>Gostyngiad cynaliadwyedd</b>	Y term a ddefnyddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gostyngiad yn y swm a drwyddedir mewn trwydded tynnu dŵr bresennol er mwyn dangos nad yw'r drwydded yn amharu ar safle a ddaw o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.
<b>Gweithdrefn Argyfwng Safonol</b>	Set o weithdrefnau ar gyfer delio ag argyfwng yw'r rhain. Caiff y gweithdrefnau eu gweithredu'n llawn neu'n rhannol yn dibynnu pa mor ddifrifol yw'r argyfwng.



---

<b>Gweithdrefnau Argyfwng Mawr</b>	Defnyddir y Gweithdrefnau Argyfwng Mawr pan fydd y sefyllfa neu nifer y bobl yr effeithir arnynt yn fwy nag y gellir delio â nhw gan ddefnyddio'r Gweithdrefnau Argyfwng Safonol.
<b>Megalitr (MI)</b>	Swm o ddŵr sy'n cyfateb i 1000 metr ciwbig, neu 1 miliwn litr.
<b>Ofwat</b>	Ofwat (Awdurdod Rheoleiddio'r Gwasanaethau Dŵr) yw rheoleidiwr economaidd y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.
<b>Offeryn Penodi</b>	Mae'r cwmïau dŵr (a charthffosiaeth) yn gweithredu o dan Offerynnau Penodi, a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd ac Ysgrifennydd Cymru ar y pryd, neu gan Ofwat, i ddarparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Offeryn Penodi yn gosod amodau ar y cwmnïau ac mae'n rhaid i Ofwat eu gorfodi.
<b>Parth Adnoddau Dŵr (WRZ)</b>	Yr ardal fwyaf y gellir rhannu'r holl adnoddau dŵr ynddi.
<b>Safle Ewropeaidd</b>	Defnyddir y term hwn i gyfeirio at unrhyw leoliad/ardal a ddynodwyd fel ardal warchoddedig o dan Gyfarwyddeb Ewropeaidd. Mae hyn yn cynnwys safleoedd cadwraeth Natura 2000 a sefydlwyd o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac Adar y Gymuned Ewropeaidd, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a Safleoedd o Bwysigrwydd Cymunedol a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd y Gymuned Ewropeaidd, ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a nodwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig o dan Gyfarwyddeb Adar y Gymuned Ewropeaidd.
<b>Sychder</b>	Cyfnod hir o dywydd sych sy'n golygu bod llif afonydd, y dŵr sy'n llifo i gronfeydd dŵr neu lefelau dŵr daear yn cyrraedd lefelau anarferol o isel.
<b>Trwydded tynnu dŵr</b>	Caniatâd i dynnu dŵr. Mae angen trwydded i dynnu dros 20m <sup>3</sup> y dydd. Caiff trwyddedau eu rhoi a'u rheoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
<b>Tynnu dŵr</b>	Y broses o dynnu dŵr o afonydd, cronfeydd dŵr a dyfrhaenau.
<b>WIA91</b>	Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd).
<b>Ymgwymerwr carthffosiaeth</b>	Cwmni a benodir o dan WIA91 i ddarparu gwasanaethau carthffosiaeth ar gyfer ardal ddaearyddol benodol o Gymru a Lloegr.
<b>Ymgwymerwr dŵr (a charthffosiaeth)</b>	Cwmni a benodir o dan WIA91 i ddarparu gwasanaethau dŵr (a charthffosiaeth) ar gyfer ardal ddaearyddol benodol.

---